**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 3 Hydref 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | A J Jeffery |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| N L Matthews | M S Tribe | T M White |
| R A Williams | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Matthew Bowyer | Prif Beirianydd Telematics |
| Ian Davies | Rheolwr Datblygu |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Hayley Kemp | Arweinydd Tîm Ardal |
| Jonathan Wills | cyfreithiwr arweiniol |
| Chris Dale | Arweinydd Tîm Mynediad i Gefn Gwlad (Hawliau Tramwy) |
| Dave Owen | Prif Swyddog Cynllunio |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorwyr H J Gwilliam a P N May

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Keeton

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd P Lloyd – Eitem 5 (1) - 2023/1680/FUL - Personol

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 fel cofnod cywir.

**22 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.**

Dim.

**23 Cais i ychwanegu Llwybrau Troed at Fap Diffiniol, Cwm Level Road, Glandwr.**

Cyflwynodd Arweinydd y Tîm Mynediad i Gefn Gwlad adroddiad a oedd yn gofyn i'r Aelodau ystyried a ddylid derbyn neu wrthod cais a wnaed i'r awdurdod hwn i wneud Gorchymyn Addasu i ychwanegu llwybr troed yn mynd o Cwm Level Road i Dinas Street, a'i gofnodi felly ar Fap Diffiniol Hawliau Tramwy Cyhoeddus y cyngor.

Amlinellwyd a manylwyd ar fanylion cefndir y cais a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ynghyd â'r ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Swyddogion.

Amlinellodd, er mwyn i'r cyngor gyflwyno'r llwybrau troed i'r cyhoedd, fod yn rhai i'r sawl a ymgeisiodd am y gorchymyn addasu dynnu ei gais yn ôl. Mae'r ymgeisydd wedi cytuno i wneud hyn ar yr amod bod y cyngor yn cyflwyno'r llwybrau troed i'r cyhoedd.

**Penderfynwyd** bod y cyngor yn cyflwyno'r ddau lwybr troed ar ei dir fel llwybrau traed cyhoeddus, fel a ddangosir ar y map a amlinellir yn 2.1 i'r adroddiad

**24 Penderfynu ar geisiadau cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.**

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r ceisiadau cynllunio isod.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#) (Sylwer: Dosbarthwyd diweddariadau i'r adroddiad y cyfeirir ato isod i Aelodau'r Pwyllgor yn ogystal â'i gyhoeddi ar wefan y cyngor cyn y cyfarfod.

**(Eitem 1) Cais Cynllunio 2023/1680FUL - Newid defnydd o annedd breswyl (Dosbarth C3) i HMO 4 ystafell wely (Dosbarth C4) 65 Windmill Terrace, St Thomas, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Roedd Aelodau'r pwyllgor wedi ymweld â safle'r cais ar fore'r cyfarfod.

Siaradodd y Cynghorydd Hayley Gwilliam (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.

**#(Eitem 2) - Cais Cynllunio 2023/0744/FUL - Newid defnydd o 3 fflat i HMO i hyd at 9 person (Dosbarth Defnydd Unigryw) yn 42 Bryn Road, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Siaradodd Derek a Nicola Bruce (gwrthwynebwyr) yn erbyn y cais.

Siaradodd y Cynghorydd Peter May (Aelod Lleol) yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Dylai'r amod ychwanegol canlynol (Amod 5) gael ei gynnwys yn yr argymhelliad.

Dylai'r defnydd o'r eiddo fel HMO gael ei gyfyngu i uchafswm o 9 person ar unrhyw adeg yn byw yn yr eiddo, yn unol â'r cynllun mewnol a ddangosir ar Gynllun Rhif 1.02 H, sef cynllun llawr diwygiedig a dderbyniwyd ar 22 Awst 2023.

Rheswm: Er mwyn cyfyngu ar y defnydd o'r eiddo i'r hyn y gwnaed cais amdano, er mwyn diogelu amwynderau'r deiliaid cyfagos ac amwynderau deiliaid yr HMO yn y dyfodol a darparu ar gyfer lefelau addas o le mewnol ar gyfer y deiliaid ac yn unol â Pholisïau PS2 a H9 Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (2010-2025).

Mae'r ffin llinell goch ar y Cynllun Lleoliad Safle yn y pecyn agenda yn anghywir ac nid yw'n cynnwys y garej sydd y tu ôl i 44, Bryn Road.

Derbyniwyd Cynllun Lleoliad Safle diwygiedig ar 28 Medi 2023, Cynllun Rhif. 0.01B sy'n dangos bod 3 lle parcio i raddfa wedi'u cynnwys, y tu ôl i'r safle a nodir yn y cais.

Derbyniwyd 1 llythyr sylwadau hwyr yn codi'r pryderon canlynol:

- Cael gwared ar arwydd stryd;
- Mae rhywun eisoes yn byw yn yr eiddo;
- Ymholiad ynghylch pa mor gywir yw ffigur prawf crynhoad o HMO y cyngor

## 25 Cais Cynllunio: 2015/0453 - Penderfyniad Apel.

Cyflwynodd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn manylu ar ganlyniad apêl yn erbyn penderfyniad y pwyllgor ar 4 Gorffennaf 2023 i wrthod cais cynllunio ar dir yn ac oddi ar The Croft, Castle Street, Abertawe.

Amlinellwyd a manylwyd ar resymau'r arolygwyr dros wrthod yr apêl yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.06 pm

**Cadeirydd**